# Canser yr ysgyfaint: diagnosis a rheoli

28 Mawrth 2019

## *Canser yr ysgyfaint: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Canser yr ysgyfaint yw un o’r mathau mwyaf cyffredin o ganser, gyda mwy na 46,000 o bobl wedi cael diagnosis yn 2015. Mae'n achosi symptomau megis peswch parhaus, pesychu gwaed a theimlo'n brin eich anadl. Mae'n bosibl na fydd pobl yn cael symptomau yn ystod y camau cynnar, ac oherwydd hynny, yn aml caiff canser yr ysgyfaint ei ddiagnosio'n hwyr. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae profion a thriniaethau gwell yn dechrau gwneud gwahaniaeth a all olygu gwell rhagolygon i nifer o bobl.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â chanser yr ysgyfaint drwy sicrhau'r canlynol:

- bod y meddygon yn gwybod am y ffyrdd gorau i ddiagnosio canser yr ysgyfaint yn gyflym ac yn gywir
- eich bod yn cael cynnig y profion a'r sganiau cywir er mwyn cael y wybodaeth orau am y math o ganser a cham y canser – bydd hyn yn helpu i gynllunio eich triniaeth
- bod eich tîm gofal yn esbonio'r triniaethau, neu gyfuniadau o driniaethau, sy'n debygol o weithio orau a'ch helpu i benderfynu ar beth sy'n addas i chi

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?
- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r driniaeth sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am ganser yr ysgyfaint ar wefan y GIG.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 00 00
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae canser yr ysgyfaint wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3308-2



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.